Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Tiwtor >**

Statws!

Perthynas â Chyrsiau CBAC

Cwrs Mynediad CBAC. Bydd yr ymarfer hwn yn addas ar ôl Uned 5.

Dull

Darperir 16 o gardiau. Mae pob cerdyn yn nodi perthynas rhywun â seren roc o'r enw Gari Gwych!

Mae Gari Gwych yn canu mewn cyngerdd yn yr ardal ond dim ond hyn a hyn o docynnau sydd ar gael. Mae'n rhaid, felly, i'r dosbarth drefnu'i hun fel bod pawb yn nhrefn ei bwysigrwydd.

Rhowch yr holl ddosbarth mewn un llinell (cylch) hir i ddechrau a gwnewch yn sicr bod pawb yn gwybod lle mae'r pen pwysig!

Rhowch gerdyn i bob dysgwr. Rhaid i bawb siarad â'r bobl sydd o'i flaen ac y tu ôl iddo yn y llinell a gofyn (e.e.)

Pwy dach chi?
Cath Gari Gwych dw i
Pwy dach chi?
Mam Gari Gwych dw i

Os ydy'r ddau yn cytuno bod Mam Gari yn bwysicach na'r gath, maent yn newid lleoedd fel bod y fam yn symud i fyny'r llinell. Mae'n well sicrhau ar y dechrau bod y pedwar cerdyn isaf o ran blaenoriaeth gan fyfyrwyr sydd yn agos at y pen 'pwysig' a'r pedwar cerdyn uchaf o ran blaenoriaeth gan fyfyrwyr sydd yn agos at y pen arall. Gall y lleill fod yn gymysg.

Os oes unrhyw anghytundeb (ac mi fydd), y tiwtor sydd â'r gair olaf. Mae'n werth rhoi'r canllawiau hyn ar y bwrdd gwyn i'r myfyrwyr.

- Mae teulu Gari yn cael blaenoriaeth wrth gwrs – ac o fewn y teulu mae'r perthnasau hyn yn cael blaenoriaeth.
- Mae pobl yn cael blaenoriaeth dros anifeiliaid.
- Mae anifeiliad mawr yn cael blaenoriaeth dros anifeiliad bach

Ar y diwedd dylid mynd ar hyd y llinell gan adael i bawb gyflwyno'i hun. Oes anghytundeb o hyd? Gwnewch yn sicr bod yr holl anifeiliaid yn gyfarwydd.

Taflen y Tiwtor

Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Statws!

Gari Gwych	Nain Gari Gwych
Mam Gari Gwych	Brawd mawr Gari Gwych
Brawd bach Gari Gwych	Ffrind Gari Gwych
Cariad Ffrind Gari Gwych	Athro Gari Gwych yn yr ysgol

Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Statws!

Gwraig Athro Gari Gwych yn yr ysgol	Hamster Gari Gwych
Ceffyl Gari Gwych	Pry cop Gari Gwych
Ci Labrador Gari Gwych	Chwannen Gari Gwych
Cath Gari Gwych	Amoeba Gari Gwych